



# Her Menter a Chyflogadwyedd

## Bagloriaeth Cymru



CANOLFAN  
DDIWYLLIANT  
**CONWY**  
CULTURE  
CENTRE



Bydd yr her hon yn canolbwyntio ar sgiliau arloesi, creadigrwydd a menter a nodweddion eich myfyrwyr, tra'n darparu profiad bywiog, hwyliog fydd yn gwella eu cyflogadwyedd.

Tîm Canolfan Ddiwylliant Conwy sydd wedi gosod yr her.

**1 YSGRIF BORTREAD**  
Hyrwyddo eich hun drwy gynhyrchu cynrychiolaeth A4 cyfannol creadigol o'ch sgiliau presennol, gallu, nodweddion a phrofiadau

**2 CYNNGIG ARLOESI**  
Cynhyrchu a chyflwyno adroddiad i weithiwr proffesiynol allanol sy'n gorfod cynnwys:

- Crynodeb gweithredol
- Pam
- Pwy
- Beth
- Pryd
- Sut
- Gwerthusiad a chyfiawnhau addas i'r diben

**3 CYNLLUN NOD**  
Ymchwilio a dadansoddi'r camau i gyrchfan gyrfa realistig posibl

Hunan-hyrwyddo ysgrifenedig mewn ffurf CV a llythyr cais neu ddatganiad personol

Dadansoddi cost y galw ariannol personol o fyw yn annibynnol a disgwyliadau ffordd o fyw

**4 CYFLWYNIAD ADLEWYRCHIAD PERSONOL**  
Mynegi datganiad cadarnhaol o'ch hun i unigolyn cyfrifol

Ymateb i gwestiynau sy'n seiliedig ar allu gan roi enghreifftiau clir o'ch sgiliau, nodweddion a rhinweddau

© WJEC CBAC Ltd.

# Y Cleient

Mae Canolfan Ddiwylliant Conwy yn ganolfan ragoriaeth arloesol ar gyfer diwylliant, treftadaeth a'r celfyddydau yn Sir Conwy a leolir ar safle Ysgol Bodlondeb yn nhref Conwy.

Mae'r Ganolfan yn cynnwys archifdy'r sir, llyfrgell ardal, arddangosfeydd treftadaeth, canolfan gelfyddydau gymunedol, ystafell gyfarfod a chaffi.

Mae'n fan cychwyn gwych ar gyfer archwilio hanes cyfoethog Sir Conwy. Mae'r arddangosiadau yn arwain ymwelwyr drwy bum mil o flynyddoedd o hanes ac mae'n cynnwys gwrthrychau unigryw, gwaith celf hyfryd a dehongliad rhyngweithiol sy'n addas i'r teulu cyfan.

Llyfrgell a llawer mwy; dyma loches, lle i ymlacio neu i wneud tipyn o waith. Rhywle i eistedd ac ymlacio gyda phaned a llyfr da. Ydych chi erioed wedi mynd ati i ymchwilio i hanes lleol neu hanes eich teulu? Dyma'r cyfle perffaith, gyda staff cyfeillgar wrth law i'ch helpu i ddechrau arni.

Mae'r manau sydd wedi'u tirlunio o amgylch y Ganolfan yn cynnwys gardd synhwyraidd heddychlon gyda llwybrau a seddi hygyrch. Gallwch wrando ar leisiau lleol yn adrodd eu hanesion wrth i chi edmygu'r planhigion meddyginiaethol yn yr Ardd Berlysiau, sy'n cydnabod hanes mynachaid cyfoethog Conwy cyn y castell.

# Y Ganolfan fel Busnes

Mae'n rhaid i Ganolfan fel hyn fod yn fywiog. Er bod yna ddylifiad tymhorol o ymwelwyr ar wyliau neu deithiau dydd, mae marchnad fawr a hanfodol i'r Ganolfan yn lleol. Drwy gyfuno gwasanaethau – llyfrgell, amgueddfa ac archifau – bydd y Ganolfan yn denu cynulleidfa leol, ond mae'n hanfodol anelu at ymweliadau ailadroddus. Mae'n rhaid i'r Ganolfan gwrdd â disgwyliadau ymwelwyr a bod yn gyson yn ei safon gofal ac ansawdd. Bydd hefyd angen amrywiad, arloesi, newid ac adnewyddu.

Isod rhestrir rhai pethau y gall busnes ei wneud i osgoi mynd yn 'ddiflas'. Gall busnesau gael:

- digwyddiadau rheolaidd ac amrywiol
- gweithgareddau tymhorol neu wedi eu targedu
- gweithgareddau wedi eu targedu at gynulleidfaoedd penodol
- arddangosfeydd newidiol
- arddangosfeydd sy'n apelio i'r holl synhwyrâu
- caffi ardderchog
- gwasanaeth ymwelwyr ardderchog
- man tawelach, diogel
- siop anrhegion anhygoel
- ethos cynaliadwy, eco, moesegol a chyfartal yn amlwg
- profiadau arloesol
- cyfathrebu rhagorol

# Dewiswch eich Her

## Y Dewisiadau

### 1. Ymchwilio, dylunio a chyflwyno arddangosfa dros dro.

#### Dylai:

- arddangos 10 eitem/ arddangosfa amgueddfa/ delweddau
- adrodd stori am ardal Conwy
- labelu yn syml ac yn gywir
- bod yn addysgol neu'n ddiddanol neu'r ddau
- bod yn arloesol
- bod yn rhyngweithiol
- denu ymwelwyr newydd
- cynnwys ymwelwyr dychwel

#### Gallech:

- ymchwilio i'r farchnad. Holi teulu a ffrindiau a staff y Ganolfan.
- creu map llwybr i arwain ymwelwyr o amgylch eich arddangosfa
- gwobr fel sticer, rhodd neu dystysgrif
- cynhyrchu cynllun marchnata/cyfyngau cymdeithasol i'w hyrwyddo
- creu taflen i gyd-fynd gyda mwy o wybodaeth

## 2. Ymchwilio, dylunio a chyflwyno cyfres o 6 cerdyn cyfarch y gellir eu gwerthu yn y siop rhoddion.

### Dylent:

- arddangos 6 delwedd
- adrodd stori am ardal Conwy
- labelu yn syml ac yn gywir
- addysgol neu'n ddiddanol neu'r ddau
- bod yn arloesol
- denu ymwelwyr newydd
- cynnwys ymwelwyr dychwel

### Gallech:

- ymchwilio i'r farchnad. Holi teulu a ffrindiau a staff y Ganolfan.
- creu arddangosfa wal dros dro, i egluro'r stori sy'n cyd-fynd ac yn hyrwyddo eich casgliad o gardiau cyfarch
- gwahodd ffrindiau a theulu i ddod â lluniau sy'n cyd-fynd â'ch thema/stori
- cynhyrchu cynllun marchnata/cyfryngau cymdeithasol i hyrwyddo'r cardiau
- creu taflen i gyd-fynd â'r casgliad

Mae'r her hon yn berthnasol i bob agwedd o fusnes a menter. Mae cwmnïau yn ailfrandio'n barhaus, ychwanegu cynnyrch a gwasanaethau, apelio i gwsmeriaid newydd, cadw cwsmeriaid rheolaidd yn dychwelyd. Ffordd o feddwl yn greadigol yw conglfaen twf economaidd.

Gweithiwch eich ffordd drwy'r camau ar y dudalen ganlynol.

Rydym wedi cynnwys yr adnoddau canlynol i'ch helpu gyda'ch her:

- Map o'r ganolfan
- Hanes Conwy i ddechrau eich gwaith ymchwil

## Dyma rai dolenni i wefannau defnyddiol:

<https://www.bbc.co.uk/bitesize/guides/z3csycw/revision/1>

<https://hwb.gov.wales/repository/resource/606bd358-09fb-49f9-8e6c-136838ef29ba/en>

<https://museum.wales/media/38613/Trial-challenge.pdf>

<https://www.gwegogledd.cymru/index.php/bacvle/uwch/her-menter-a-chyflogadwyedd/?lang=en>

# Y Camau

Mae'r her hon yn dasg tîm ond gyda'r cyfle i ddenu cryfderau unigol a chefnogi gwendidau'r naill a'r llall.

Rydym wedi awgrymu'r camau canlynol o ddatblygu a gwerthuso. Mae yna lwyth o becynnau a thechnegau y gellir eu harchwilio a'u defnyddio yn ystod pob cam. Gwiriwch y dolenni gwefan ar y dudalen flaenorol. Rydym yn awgrymu fod gan bob myfyriwr ddyddlyfr ble maent yn cofnodi pob cam o'r her a'r hyn maent wedi'i ddyngu. Bydd hyn yn ffurfio rhan o'u hadlewyrchiad personol ar y diwedd.

## 1. Tîm

Beth sy'n gwneud i dîm weithio? Beth yw eich cryfderau unigol? Sut mae timau'n cael eu strwythuro?

Prawf sgiliau: Oes gennych chi'r nodweddion angenrheidiol i lwyddo mewn menter? Gwnewch y prawf sgiliau am ddim canlynol i wybod!

[www.enterprisecatalyst.co.uk](http://www.enterprisecatalyst.co.uk)

Ysgrifennwch eich Ysgrif Bortread a Chynllun Cyrchfan.

## 2. Yr Her

Beth sy'n eich diddori yn her y Ganolfan? Trafodwch y briff gyda'ch cleient. Beth yw eich barn a syniadau cychwynnol? Cael nhw i gyd allan a sicrhau fod pawb yn cael cyfle i gyfrannu. Cynllunio eich ymweliad cyntaf i Ganolfan Ddiwylliant Conwy. Beth ydych chi angen ei wybod? Beth yw rôl eich tîm ac unigolion? Sut ydych chi am gofnodi eich profiad?

## 3. 100 i 1

Sut allwch chi benderfynu pa syniad i'w ddewis? Manteision ac anfanteision? Taflen sgorio? Dadansoddiad o Gryfderau, Gwendidau, Cyfleoedd a Bygythiadau?

## 4. Rolau a Chyfrifoldebau

Beth yw'r tasgau a champau datblygu eich syniad? Cyfateb sgiliau unigol i dasgau yn deg, rhannu'r tasgau os oes angen. Creu cynllun CAMPUS, fel siart GANTT, ar gyfer cynllunio, datblygu a gweithredu. Cwblhau eich Cynnig Arloesi.

## 5. Cyfathrebu

Sut ydych chi am sicrhau fod pawb yn cwblhau tasg ac ar amser? Mae pob tîm angen cyfleoedd i werthuso, newid ac aildyrannu tasgau er mwyn dysgu, addasu a chyflawni. Sut allwch chi gynnal momentwm, brwdfrydedd a chymhelliant? Cofnodi cofnodion cyfarfodydd yn eich dyddlyfr.

## 6. Ymweld â Chanolfan Ddiwylliant Conwy

Archebwch eich ymweliad drwy e-bost [LIC@conwy.gov.uk](mailto:LIC@conwy.gov.uk). Cyrhaeddwch yng Nghanolfan Ddiwylliant Conwy gyda chynllun. Archwiliwch y Ganolfan, tynnwch luniau, ysbrydolwch eich hun a siaradwch gyda staff.

## 7. Cynnig

Dychwelwch i'r briff gwreiddiol. Ydych chi wedi datblygu'r hyn mae'r cleient wedi gofyn amdano? Sut ydych chi am gyfleu eich cynnig i dîm Canolfan Ddiwylliant Conwy? Nodi a rhannu'r tasgau, er enghraifft: digidol, gweledol, cyflwyno, manylion, costau, amserlen darparu a chrynodeb. Pwy ddylai wneud beth?

## 8. Amser y sioe

Cynlluniwch, paratowch a dyluniwch eich ymateb i'r briff. E-bostiwch eich cyflwyniad i Ganolfan Ddiwylliant Conwy: [LIC@conwy.gov.uk](mailto:LIC@conwy.gov.uk).

## 9. Adlewyrchiad Personol

Cwblhewch eich dyddlyfrau unigol. Paratowch Gyflwyniad Adlewyrchiad Personol 5 munud yn amlygu beth sy'n eich gwneud yn fentrus ac yn gyflogadwy.